



# Cais am Gynigion Echel Blaenoriaeth 3 – Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol

## Canllawiau i Ymgeiswyr

**Ebrill 2017**

## Cynnwys

1. Cefndir .......... 2

1.1 Dyfodol y Cronfeydd .......... 2

1.2 Cefndir y Cais am Gynigion o dan Echel Blaenoriaeth 3 .......... 2

2. Cwmpas y Cais EB 3 .......... 4

2.1 Dangosyddion Allbwn .......... 4

2.2 Gweithgareddau Cymwys .......... 5

2.3 Y Cyllid sydd ar gael .......... 6

3. Dyddiadau ac amseroedd cau .......... 7

4. Sut i ymgeisio .......... 7

5. Y broses asesu a phenderfynu .......... 8

6. Cysylltu / Ymholiadau Pellach .......... 9

7. Dogfennau Defnyddiol / Rhagor o Wybodaeth .......... 9

Atodiad 1 .......... 10

# 1. Cefndir

## 1.1 Dyfodol y Cronfeydd

1. Mae Awdurdod Rheoli Rhaglen Iwerddon Cymru yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a'n partneriaid gweithredol yn Iwerddon, y Cynulliad Rhanbarthol Deheuol, yn parhau i roi rhaglen Drawsffiniol Iwerddon Cymru (2014-2020) ar waith.

2. Mae ceisiadau am gyllid yn cael eu datblygu a'u cymeradwyo yn unol â'r amcanion hynny sydd wedi'u datgan yn Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020 ac a gytunwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac yn unol â'r gweithdrefnau dethol y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen.

3. Yn dilyn Refferendwm yr UE yn y DU, mae Gwarant Cyllid Trysorlys y DU yn darparu gwarant oes lawn i bob prosiect Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (gweithrediadau) sydd wedi'u cymeradwyo cyn i'r DU adael yr UE. Mae'r gwarant hwn yn cynnwys y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo o dan Raglen Iwerddon Cymru.

4. Mae llywodraethau Cymru ac Iwerddon wedi ymrwymo'n gadarn i roi rhaglen Iwerddon Cymru ar waith yn llwyddiannus ac mae'n parhau'n gwbl agored i fusnes.

## 1.2 Cefndir y Cais am Gynigion o dan Echel Blaenoriaeth 3

5. Mae rhaglen drawsffiniol Iwerddon Cymru'n elwa o 20 mlynedd o gydweithredu ac mae'n gyfrwng rhagorol i ddatblygu a chyfnewid arfer gorau a gweithredu prosiectau partneriaeth o ansawdd uchel sy'n darparu atebion i heriau cyffredin ar draws ein ffin forol.

6. Ochr yn ochr â chyllid cyfatebol, mae'r rhaglen yn creu cyfanswm o tua €100 miliwn (ERDF €79m) o fuddsoddiad yn ystod cyfnod rhaglen 2014-2020 drwy gyfrwng tair Echel Blaenoriaeth (EB):

   - EB 1 Arloesi Trawsffiniol;
   - EB 2 Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd (Môr Iwerddon a'r Cymunedau Arfordirol) ac;
   - EB 3 Adnoddau a Threftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol (gyda ffocws ar dwristiaeth).

7. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag Echel Blaenoriaeth 3 yn unig.

8. **Amcan Penodol EB 3 yw gwireddu'n gynaliadwy botensial asedau naturiol a diwylliannol i gynyddu niferoedd yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen.**

9. Mae Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Iwerddon Cymru'n tynnu sylw at gysylltiadau clir rhwng yr economi a thwristiaeth, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol. Felly mae'r Rhaglen wedi derbyn nifer annigonol o geisiadau sy'n ceisio bodloni Amcan Penodol EB 3.

10. Mae'r Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar sut gellir defnyddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol fel adnodd i ysgogi twf economaidd drwy gynyddu pa mor atyniadol yw cymunedau arfordirol ardal y Rhaglen fel mannau i ymweld â hwy. Bydd y pwyslais ar sut gellir defnyddio Môr Iwerddon i'r diben hwn a sut gellir defnyddio twf gwyrdd a thwf glas fel sail i dwf economaidd.

11. Rhoddir pwyslais ar ardaloedd amgylcheddol arfordirol a morol ble gellir cyflawni'r gwerth ychwanegol mwyaf. Mae gan yr ardaloedd hyn botensial sylweddol i ddefnyddio eu treftadaeth a'u hasedau naturiol a diwylliannol – gan gynnwys Môr Iwerddon – i fod yn llefydd mwy atyniadol i ymweld â hwy ac i gyflawni twf economaidd cynaliadwy drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr.

12. Mae cymunedau cadarn a chynaliadwy'n bwydo i ranbarthau ffyniannus a all ddenu datblygiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae creu cymunedau lleol iach yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar eu hasedau unigryw.

13. Mae'r Flaenoriaeth hon hefyd yn rhoi sylw i dwf cynhwysol a bydd yn canolbwyntio ar y defnydd o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol mewn datblygu a hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy cynhwysol yn gymdeithasol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer ymyriadau sy'n darparu manteision cymdeithasaol a all wneud ardal yn fwy atyniadol ac felly cynyddu ei photensial economaidd.

## 2. Cwmpas y Cais EB 3

14. **Mae'r cais yn gwahodd prosiectau Echel Blaenoriaeth 3 drwy fynegi diddordeb i'r Gyd-ysgrifenyddiaeth a chyflwyno Tabl Rhesymeg Gweithredu (TRhG). Gwelir y manylion llawn yn adran 4 – Sut i ymgeisio**

15. Mae Cyd-ysgrifenyddiaeth y Rhaglen wedi cynnal dadansoddiad bwlch yn Echel Blaenoriaeth 3. Mae'r MA a'i bartneriaid gweithredol yn Iwerddon wedi ystyried y canfyddiadau ac, yn seiliedig ar brinder y cynigion yn y system i raddau, mae wedi penderfynu agor cais heb gyfyngiadau ar draws EB 3. Fodd bynnag, rhaid i bob cais gydymffurfio â'r Amcan Penodol ar gyfer EB 3 a'r egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau, fel y nodir yn nogfen Rhaglen Weithredol Iwerddon Cymru.

[http://irelandwales.eu/sites/default/files/2016-04/150315summaryirelandwales.pdf](http://irelandwales.eu/sites/default/files/2016-04/150315summaryirelandwales.pdf)

16. Dyma'r <u>canlyniadau</u> mae'r Echel Blaenoriaeth yma'n ceisio'u cyflawni:-

- Cynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol y rhanbarth trawsffiniol drwy wneud defnydd cynaliadwy o'u hasedau naturiol a diwylliannol.
- Cynyddu gallu'r cymunedau arfordirol i ddefnyddio eu treftadaeth naturiol a diwylliannol fel sbardun i dwf economaidd.

17. Y dangosydd canlyniad ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth yw ***cyfanswm yr ymwelwyr tramor â chymunedau arfordirol Iwerddon Cymru.***

### 2.1 Dangosyddion allbwn

18. Wrth ddangos y rhesymeg ymyrryd ar gyfer eich cynnig fel rhan o'r TRhG, bydd rhaid i chi ddisgrifio sut rydych yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcan sydd wedi'i ddisgrifio yn Adran 1.2 (Gwireddu'n gynaliadwy botensial asedau naturiol a diwylliannol i **gynyddu niferoedd yr ymwelwyr** â chymunedau arfordirol yn ardal y Rhaglen). Trwy wneud hynny, rydym yn disgwyl cyfraniad uniongyrchol fesuradwy at y dangosyddion allbwn a ddisgrifir isod. Bydd natur y cynnig yn helpu i benderfynu ynghylch dewis y dangosyddion allbwn mwyaf perthnasol, ond cyfuniad o'r rhain fydd y metrigau craidd a ddefnyddir i asesu perfformiad gweithrediadau cymeradwy.

19. Mae'r allbynnau ar gyfer Echel Blaenoriaeth 3 wedi'u datgan yn nogfen Rhaglen Weithredol Iwerddon Cymru:

- Cynnydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir
- Nifer y rhwydweithiau twristiaeth newydd sy'n hybu asedau diwylliannol, naturiol neu dreftadaeth.
- Nifer y cymunedau arfordirol sy'n cymryd rhan mewn cydweithredu trawsffiniol yn gysylltiedig â thwristiaeth ddiwylliannol, naturiol neu dreftadaeth.
- Nifer y gweithrediadau peilot sydd wedi'u cwblhau.

## 2.2 Gweithgareddau Cymwys

20. Mae'r math o weithgareddau sy'n gymwys am gefnogaeth wedi'u datgan yn nogfen y Rhaglen Weithredol. Dim ond os gellir dangos ei fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at Amcan Penodol EB 3, ac yn gallu cyfrannu at gyflawni'r dangosyddion allbwn, y bydd gweithgaredd yn cael lle.

21. Bydd y mathau o gydweithredu trawsffiniol yn y Rhaglen yn cynnwys un neu fwy o'r elfennau canlynol yn y tair Echel Blaenoriaeth, gan gynnwys Echel Blaenoriaeth 3:

- **Sefydlu neu ddatblygu** rhwydwaith, llwyfan cydweithredu, porthol neu strategaeth;

- **Tosglwyddo neu fabwysiadu** gwybodaeth, arbenigedd, technolegau neu arfer gorau;

- **Galluogi paratoi'r ffordd** ar gyfer buddsoddi mewn dylunio, datblygu, profi neu gyflawni prosesau, cynhyrchion, astudiaethau neu wasanaethau newydd – er enghraifft, camau gweithredu peilot, modelau arddangos ac ati;

- **Buddsoddiadau graddfa fechan** lle ceir gwerth ychwanegol trawsffiniol clir a chydymffurfiaeth ag amcanion y Rhaglen (e.e. buddsoddiad graddfa fechan perthnasol, fel prynu offer ar gyfer peilot neu at ddibenion arddangos, e-seilwaith ac ati).

  Mae esiamplau o weithgareddau dangosol wedi'u datgan yng Nghrynodeb Dinasyddion Rhaglen Weithredol Iwerddon Cymru, tudalen 52.

22. Mae croeso i ddulliau arloesol o weithredu os ydynt yn gyfrwng i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

23. Rhaid i bob prosiect (gweithred) gynnwys o leiaf un partner o Iwerddon ac un partner o Gymru, gydag uchafswm o 6 phartner ar y cyd i bob gweithred. Rhaid i bob gweithred benodi partner arweiniol.

24. Un elfen hanfodol mewn datblygu partneriaethau trawsffiniol yw'r 4 maen prawf cydweithredu. Nod y meini prawf hyn yw sicrhau gweithio ar y cyd, cydweithredu gwirioneddol a gwell tryloywder:

- Datblygu ar y Cyd
- Gweithredu ar y Cyd
- Staff ar y Cyd
- Cyllido ar y Cyd

25. Oddi mewn i faes y rhaglen, mae cymuned arfordirol yn cyfeirio at unrhyw gymuned mewn awdurdod lleol sydd ag arfordir:

26. Ar gyfer Echel Blaenoriaeth 3 yn unig, yng Nghymru, mae hyn yn eithrio Wrecsam. Yn Iwerddon, mae hyn yn eithrio Tipperary, Carlow, Kildare a Kilkenny.

27. *Mae partneriaid o ardal gymwys y rhaglen gyfan yn gallu cymryd rhan mewn prosiectau ar yr amod bod manteision y prosiect i gymunedau arfordirol i'w gweld* yn glir.

28. Fel gyda'r holl gynigion, bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cynnal yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol er mwyn sicrhau bod sefydliadau mewn sefyllfa briodol o ran arian ac adnoddau i roi'r gweithgaredd arfaethedig ar waith.

29. Er bod profiad blaenorol o roi gweithred a gyllidir gan yr UE ar waith yn gallu bod yn fuddiol, ni fyddai'n ofyniad, ac mae croeso i sefydliadau newydd i gyllid cydweithredu tiriogaethol.

## 2.3 Y Cyllid Sydd ar Gael

30. Gwelir y sefyllfa gyllido bresennol ar gyfer Echel Blaenoriaeth 3 isod. Y nod yw ymrwymo'r cyllid sy'n weddill drwy gyfrwng y cais hwn am gynigion.

| ERDF (€) | Rhaglen Iwerddon Cymru |
|---|---|
| Cyfanswm y Dyraniad | €15,047,706 |
| Cyfanswm Wedi'i Ymrwymo (Cymeradwy) | €0 |
| Y Gweithrediadau yn y Cyfnod Cynllunio Busnes | €5,421,024* |
| Gweddill | €9,626,682 |

| | |
|---|---|
| Cyfradd Ymyriadau ERDF | 80%** |

*Yn amodol ar amrywiad yn dilyn gweithdrefnau gwerthuso'r Gyd-ysgrifenyddiaeth.
**Ffynhonnell o gyllid cyfatebol i'w datgan yn y TRhG.

## 3. Dyddiadau ac amseroedd cau

| | |
|---|---|
| Lansio'r Cais | **15fed Mai 2017** |
| Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyno Cynigion | **28ain Gorffennaf 2017** |
| Penderfyniad i'r Ymgeiswyr | **17eg Hydref 2017** |

## 4. Sut i ymgeisio

**Cam 1:** Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr gofrestru eu manylion cyswllt (e-bost) gyda'r Gyd-ysgrifenyddiaeth ym mlwch negeseuon y rhaglen: IrelandWalesCrossBorderProgramme@wales.gsi.gov.uk

**Cam 2:** Gofynnir i chi gyflwyno **Tabl Rhesymeg Gweithredu** (TRhG), sy'n dangos mewn tabl y sail resymegol i'ch cynnig, gan sicrhau bod y canlyniad a'r grwpiau targed yn glir. Mae cyfarwyddyd ar lenwi'r TRhG ar gael ar wefan IC: http://irelandwales.eu/apply-funding/guidance-project-proposals-and-approved-projects-ireland-wales-programme-2014-2020

**Cam 3:** Bydd y TRhG yn cael ei asesu gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth (edrychwch ar Adran 5) a'i ystyried gan y Grŵp Technegol. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwahoddiad i'r 'Cyfnod Cynllunio Busnes' ffurfiol i ddatblygu'r cynnig ymhellach yn Gynllun Busnes.

**Wrth lenwi'r TRhG:**

- Gofalwch eich bod wedi darllen a deall y wybodaeth ategol a'r dogfennau canllaw sydd ar gael ar wefan IC.
- Ysgrifennwch yn fyr ac yn gryno. Ni fydd gwybodaeth a ddarperir ar ben hynny, er enghraifft atodiadau, yn cael ei hystyried wrth flaenoriaethu cynigion. Er hynny, bydd croeso i chi gynnwys cyfeiriadau at dystiolaeth annibynnol.
- Dangoswch yn glir sut mae'ch cynnig yn ffitio'n fanwl i gwmpas y cais (Adran 2).
- Dangoswch werth am arian drwy nodi'r effaith realistig ac uniongyrchol y bydd eich cynnig yn gallu ei sicrhau mewn perthynas â'r costau.

**Bydd angen cyflwyno copi electronig o'ch**
**Tabl Rhesymeg Gweithredu i flwch negeseuon Iwerddon Cymru:**

**IrelandWalesCrossBorderProgramme@wales.gsi.gov.uk**

**Cyn 5pm ar 28ain Gorffennaf 2017. Ni fydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn derbyn unrhyw gyflwyniadau hwyr.**

## 5. Y broses asesu a phenderfynu

31. Bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cadw at ei phrosesau dewis a blaenoriaethu safonol (http://irelandwales.eu/apply-funding/guidance-project-proposals-and-approved-projects-ireland-wales-programme-2014-2020). Fel y disgrifir yn Adran 4, bydd y cynigion a gyflwynir fel ymateb i'r cais hwn yn cael eu blaenoriaethu gan y Grŵp Technegol ar sail y Tabl Rhesymeg Gweithredu (TRhG). Bydd pob cynnig yn cael ei farnu ar sail ei rinweddau ei hun. Wrth helpu i flaenoriaethu cynigion, mae'n bosib y bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr, ond y Grŵp Technegol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn y cyfnod hwn yn y broses. Bydd pob ymgeisydd yn cael ei hysbysu am ganlyniadau'r ymarfer.

32. Mae'r cynigion llwyddiannus yn debygol o fod:
    - Wedi bodloni meini prawf cymhwysedd sylfaenol
    - Yn glir o ran eu ffocws, eu rhesymeg ymyrryd a'u dull o ddarparu
    - Yn ffitio'n fanwl i gwmpas y cais
    - Yn cyfrannu'n gadarn a realistig at y Dangosyddion Allbwn allweddol
    - Yn dangos sut bydd y cynnig yn integreiddio ac yn ychwanegu gwerth at weithgarwch presennol
    - Yn cynnig elw da ar fuddsoddiad
    - Dylai'r holl Bartneriaid ar y Cyd fod yn eu lle a chynnwys o leiaf un partner o Gymru ac un o Iwerddon. Dylai ymgeiswyr ystyried balans y bartneriaeth ar draws y ddwy wlad.

33. Oherwydd argaeledd cyfyngedig y cyllid a natur gystadleuol y cais, nid oes gwarant y bydd cynigion sy'n rhoi sylw i gwmpas y cais yn cael cefnogaeth gan y Grŵp Technegol. Bydd y prosiectau hynny a ystyrir gan y Grŵp Technegol fel prosiectau â rhinweddau digonol yn symud ymlaen drwy'r broses cynllunio busnes ar gyfer eu hystyried gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen. Mae gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen fandad i wneud penderfyniadau am gyllid y prosiect yn unol â'i Reolau Gweithdrefn, y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen.

34. Bydd pob cynnig sy'n symud ymlaen i'r 'Cyfnod Cynllunio Busnes' ffurfiol yn cael ei arfarnu'n llawn ar sail y meini prawf rydym wedi'u cyhoeddi ar gyfer dethol a blaenoriaethu http://irelandwales.eu/apply-funding/guidance-project-proposals-and-approved-projects-ireland-wales-programme-2014-2020.

35. Rhoddir prawf ar y dystiolaeth a ddarperir yn ystod yr ymarfer blaenoriaethu ar ddechrau'r broses cynllunio busnes. Gellir cyflwyno cynigion yn y cyfnod cynllunio busnes i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen ar gyfer eu gwrthod yn unrhyw gam cyn gwneir cynnig o grant. Os yw'n briodol, efallai y bydd y Grŵp Technegol yn gwahodd cynnig arall wedyn i'r 'Cyfnod Cynllunio Busnes'.

## 6. Cysylltu / Ymholiadau Pellach

36. Mae'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn barod i helpu gydag esbonio'r broses a'i blaenoriaethau ar gyfer cyllido, yn enwedig os ydych chi'n newydd i Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a/neu Raglen Iwerddon/Cymru. Bydd rhaid cyfyngu ar y trafodaethau ar fanylion y cynigion unigol i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael yr un cyfleoedd.

37. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i flwch negeseuon Iwerddon Cymru: **IrelandWalesCrossBorderProgramme@wales.gsi.gov.uk** a byddwn yn ymateb i unrhyw ymholiadau sydd gennych chi.

## 7. Dogfennau Defnyddiol / Rhagor o Wybodaeth


38. Os ydych yn ystyried cyflwyno cynnig, dylech ymgyfarwyddo â'r dogfennau canllaw a gwybodaeth sydd ar gael ar wefan Iwerddon Cymru:

**http://irelandwales.eu/apply-funding/guidance-project-proposals-and-approved-projects-ireland-wales-programme-2014-2020.**

Gwelir map o'r rhaglen gymwys yn Atodiad 1.

**Atodiad 1**

# IRELAND/WALES CROSS BORDER PROGRAMME (2014-2020)




*****Ar gyfer Blaenoriaeth Echel 3 mae’r ffocws fel y nodwyd yn nogfen Rhaglen Weithredol Iwerddon Cymru ar gymunedau arfordirol ac mae’n eithrio:

Wrecsam, Cymru;
Tipperary, Carlow, Kildare, Kilkenny, Iwerddon.

Edrychwch hefyd ar baragraff 27